# Ymchwiliad Gr p Tasg a Gorffen Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’ r rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru.

Academi Fyd-Eang Prifysgol Cymru: cyflwyniad
Richie Turner

9 Tachwedd 2011

Prifysgol Cymru
Academi Fyd-eang

University of Wales
Global Academy

Sefydlwyd yr Academi Fyd-Eang gan Brifysgol Cymru yn 2008, a'i nod yw hybu arloesi yng Nghymru drwy gydweithio cynyddol rhwng y sector breifat a phrifysgolion yng Nghymru a thrwy'r byd.

Nid yw'r cyflwyniad hwn yn adlewyrchu barn Prifysgol Cymru na'r Academi Fyd-Eang. Mae'r cyflwyniad hwn yn adlewyrchu barn yr awdur Richie Turner yn unig

**Cylch gorchwyl yr ymholiad yw: "Edrych ar y rhagolygon ar gyfer gwahanol lwyfannau'r cyfryngau yng Nghymru drwy ystyried:**

1. **Cyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru a'r effaith y mae technoleg newydd a datblygiadau eraill yn ei chael ar hyn, yng nghyd-destun pryderon parhaus ynghylch dyfodol y cyfryngau darlledu a phrint yng Nghymru;**

Efallai ei bod yn bwysig dechrau drwy egluro'r hyn a olygir wrth sôn am y cyfryngau yng Nghymru. Mae'r cyfryngau yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae cyfryngau yn ei ystyr ehangach yn cynnwys pob math o sianelau cyfathrebu a ddefnyddir i ddosbarthu newyddion, adloniant, data neu negeseuon hyrwyddo. Yn ei ystyr ehangach mae'r cyfryngau'n cynnwys platfformau traddodiadol megis y teledu, papurau newydd a chyhoeddwyr eraill, radio, hysbysfyrddau, post uniongyrchol yn ogystal â'r diwydiannau creadigol hynny a gwmpesir o fewn y sectorau digidol newydd ac esblygol megis datblygu meddalwedd, gemau, rhwydweithio cymdeithasol, ffonau symudol a chymwysiadau dyfeisiadau clyfar.

Yn amlwg ceir cydgyfeiriant cynyddol o ran technoleg, gyda dyfeisiadau caledwedd a chymwysiadau meddalwedd, ac mae angen i Gymru sicrhau bod hyn yn cael ei gymhwyso er ei budd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol. Efallai'n fwy hanfodol ceir cydgyfeiriant hefyd o ran cynnwys diwylliannol byd-eang ac mae hyn yn fygythiad i gyflwr y cyfryngau yng Nghymru. Mae argaeledd cannoedd, yn wir miloedd o sianelau teledu, radio a chyfryngau ar-lein dros y blynyddoedd diweddar drwy gebl, lloeren, telegyfathrebu symudol a'r rhyngrwyd yn rhoi'r ffug-argraff fod y cyfryngau yng Nghymru yn fwy amrywiol a'u bod yn cynnig cyfle ymddangosiadol i dyfu mewn marchnadoedd byd-eang. I'r gwrthwyneb byddwn i'n dadlau bod y cyfryngau yng Nghymru dan fygythiad yn sgil uffurfioli cynnwys sydd yn gynyddol 'Americanaidd', ac yn sicr nad yw wedi'i wreiddio yn y diwylliant Cymreig.

Yn ei araith ddiweddar i gynhadledd yr IWA ar ddarlledu yng Nghymru, bu Huw Jones, Cadeirydd S4C yn trafod y mater gan gyfeirio at y modd y gellid cefnogi'r iaith Gymraeg yn y byd newydd o gyfryngau cymdeithasol lle gwelir y Saesneg (Saesneg wedi'i Americaneiddio fel arfer) fel norm. Yn gryno ceir dau brif yrrwr o fewn y cyfryngau yng Nghymru (a gweddill y byd). Yn gyntaf, cydgyfeiriant technoleg a'r cynnwys diwylliannol 'Americanaidd' byd-eang (yr amlinellwyd uchod). Yn ail, y cynnydd sylweddol yn y cyflenwad o sianelau digidol a phlatfformau ar-lein ynghyd â chynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr am gynnwys mwy lleol ac sydd wedi'i greu gan y defnyddiwr. Mewn geiriau eraill, mae galw gan ddefnyddwyr yn dod yn fwyfwy segmentaidd a thameidiog yn ddiwylliannol. Mae'r ail o'r tueddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i Gymru, a chenhedloedd bach diwylliannol annibynnol eraill tebyg, gystadlu'n effeithiol a'u gwahaniaethu eu hunain yn erbyn 'Disneyeiddio' a 'Facebookeiddio' yr holl gyfryngau yng Nghymru.

Yn fyd-eang, mae technoleg newydd yn galluogi ac yn ymrymuso pobl i greu eu cynnwys cyfryngol eu hunain a lledaenu'r cynnwys hwnnw eu hunain. Mae hyn yn newid modelau busnes cyfryngol (y byddaf yn eu trafod yn fanylach yn ddiweddarach) ond mae hefyd yn annog creu

cynnwys mwy lleol a rhanbarthol. Ar draws Ewrop ceir tystiolaeth glir fod defnyddwyr yn defnyddio'r nifer enfawr o blatfformau digidol ac ar-lein sydd ar gael bellach iddynt ond dim ond os yw'r argaeledd cynyddol hwn hefyd yn cynnwys mynediad gwell at gynnwys a ddarperir yn eu hiaith eu hunain, ac yn cynnwys newyddion ac adloniant o'u cymuned, rhanbarth neu genedl eu hunain gan ganiatáu i ddefnyddwyr ryngweithio'n uniongyrchol â'r cynnwys cyfryngol.

Fel cenedl ddwyieithog mae Cymru mewn sefyllfa dda i elwa ar yr angen i gyflenwi cynnwys cyfryngol amlieithog, wedi'i greu'n lleol ac sy'n berthnasol yn lleol. Mae'r mwyafrif o'n cwmnïau yn y diwydiannau creadigol eisoes yn gyfarwydd iawn â chynhyrchu cynnwys dwyieithog. Dylai'r sgiliau hyn alluogi Cymru i fod ar y blaen yn nhermau arloesi technolegol a diwylliannol wrth greu a chyflenwi cynnwys cyfryngol, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y marchnadoedd byd-eang yn enwedig yn Ewrop ac Asia.

Felly mae'r sefyllfa hon yn cyflwyno cwestiynau pwysig i'r cyfryngau cyfredol, mwy traddodiadol yng Nghymru am eu cynaladwyedd a swyddogaeth tymor hir. Wrth i'r farchnad a chyfran cynulleidfaoedd erydu fwyfwy yn sgil yr holl ddechreuwyr cyfryngol newydd dylai'r cyfryngau yng Nghymru anelu at gystadlu drwy ddarparu cynnwys o'r ansawdd uchaf sydd yn berthnasol yn lleol ac yng Nghymru, ond sydd hefyd o ddiddordeb yn fyd-eang. Rhaid i'r cyfryngau masnachol yng Nghymru fod yn gallu gwerthu eu cynnwys i'r farchnad fyd-eang er mwyn i'r sector ei gynnal ei hun yn erbyn incwm y marchnadoedd cartref sy'n disgyn.

Mae cyflwr cyfredol y sector teledu yng Nghymru yn berthnasol. Mae'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu setliadau cyllidol llym yn y dyfodol rhagweladwy. Mae hyn eisoes yn cael effaith sylweddol ar y sector cynhyrchu annibynnol fel y gwelwyd gyda'r toriadau diweddar yng nghwmni Boomerang +. Mae gwir berygl y bydd y toriadau hyn mewn cyllidebau comisiynu, yn enwedig yn BBC Cymru ac S4C yn arwain at gwymp yn ansawdd y rhaglenni teledu a gynhyrchir yng Nghymru. Os bydd hynny'n digwydd yna bydd y cyfryngau yng Nghymru yn wynebu bygythiadau mwy fyth i'w cyfran o'r gynulleidfa oddi wrth wneuthurwyr rhaglenni byd-eang sydd â gwell adnoddau. Datrysiad syml posibl fyddai lleihau'r nifer o raglenni teledu a gynhyrchir yng Nghymru er mwyn gwarchod cyllidebau cynhyrchu ac yn sgil hynny ansawdd. Rwyf i'n credu y byddai hynny'n gwbl gyfeiliornus gan fod angen rhagor o gynnyrch cyfryngol o ansawdd uchel ar Gymru, nid llai.

Felly'r unig opsiynau sy'n weddill i sector teledu Cymru yw bod yn fwy effeithlon ac arloesol. Rhaid ystyried y trefniadau cyllido newydd rhwng y BBC ac S4C bellach fel cyfle i rannu adnoddau, lleihau costau gweithredu'n sylweddol a gwella cydweithio creadigol. Dylai rhannu safle, costau trosglwyddo a gwasanaethau cymorth gweinyddol arwain at arbedion sylweddol y gellid eu trosglwyddo ar unwaith i gyllidebau comisiynu llinell flaen. Byddai darparu cynlluniau cyllideb llawer hirach yn y dyfodol i'r sector teledu annibynnol a galluogi cyfran uwch o gyd-gomisiynau yn arbed arian yn ogystal â denu buddsoddiad o'r tu allan i Gymru o bosibl.

Mae'r sector cynhyrchu teledu yng Nghymru ar hyn o bryd yn fregus yn economaidd ac yn wynebu blynyddoedd anodd iawn. Nid yw'r model 'super indie' (fel y'i cyflwynwyd sawl blwyddyn yn ôl) wedi profi'n llwyddiannus gyda'r cyfan ar wahân i Grŵp Tinopolis a Dinamo Productions yn parhau'n hynod ddibynnol ar gomisiynau S4C. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r sector wedi ceisio amrywio ei farchnadoedd, ac mae'n parhau i geisio ond i raddau helaeth ni allai'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru oroesi heb gomisiynau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid gwneud popeth posibl i warchod cyllidebau rhaglenni er mwyn sicrhau bod Cymru'n cynnal a gobeithio yn cynyddu amrywiaeth a phlwraliaeth rhaglenni o ansawdd uchel.

2. **Beth ddylai'r blaenoriaethau fod o safbwynt Cymru wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer ei Bil cyfathrebu.**

Mae dwy brif flaenoriaeth i Gymru yn sgil Bil Cyfathrebu Llywodraeth y DU. Yn gyntaf rhaid i Gymru geisio elwa ar y newidiadau i hawliau eiddo deallusol. Mae angen i'r Bil adlewyrchu'r farchnad fyd-eang ar gyfer cynnwys creadigol a galluogi cynhyrchwyr cynnwys i fanteisio'n rhwyddach yn fasnachol ar y cynnwys hwnnw mewn amrywiaeth o blatfformau a marchnadoedd. Mae Codau Ymarfer cyfredol yn tueddu i gyfyngu ar allu naill ai cynhyrchwyr cynnwys neu'r sawl sy'n trwyddedu'r cynnwys i ddod o hyd i farchnadoedd a chwsmeriaid newydd.

Rwyf i'n cefnogi safbwynt S4C bod ei gylch gorchwyl cyfredol fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfyngu ar ei allu i elwa ar ecsbloetio eilradd mewn perthynas â chynnwys sydd eisoes yn bodoli. Byddai mwy o hyblygrwydd yn y maes hwn yn caniatáu i S4C a'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru gydweithio yn rhwyddach a helpu i greu ffynonellau cyllid amgen. Fodd bynnag mae hefyd yn hanfodol fod unrhyw lacio o ran deddfwriaeth a rheoliadau hawliau eiddo deallusol yng Nghymru yn annog ymglymiad y sector preifat. Mae angen i ni wneud yn siŵr nad yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn tra-arglwyddiaethu ar y farchnad cyfryngau newydd. Dylai Cymru greu amgylchedd lle gall cwmnïau digidol bach, creadigol ac annibynnol ddefnyddio cynnwys a gomisiynwyd gan ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chaniatáu i'r cwmnïau hyn arloesi'n rhydd yn nhermau cynhyrchion newydd a gwasanaethau y gallent ddymuno eu darparu.

Fel ail brif flaenoriaeth yn y bil dylai Cymru drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru geisio gwell atebolrwydd a chyfrifoldeb am ddarlledu yng Nghymru.

3. **Y cyfleoedd ar gyfer adeiladu modelau busnes newydd ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru**

Mae Academi Fyd-Eang Prifysgol Cymru yn gweithio gyda chwmnïau i hybu arloesi yn economi Cymru drwy, yn rhannol, brosiectau cydweithredol gyda rhai o brif brifysgolion y byd megis MIT. Rydym ni'n barhaus yn chwilio am arloesiadau a modelau busnes newydd i'w cymhwyso yma yng Nghymru. Mae'r sector cyfryngau creadigol byd-eang yn wynebu newidiadau sylweddol i'w fodelau busnes traddodiadol yn enwedig yn nhermau sut i greu incwm mewn byd lle nad yw defnyddwyr yn fodlon talu am gynnwys y gallant ei gael am ddim mewn mannau eraill; er bod pobl yn aml yn cael cynnwys yn anghyfreithlon.

Er mwyn sicrhau bod modelau a chwmnïau busnes yn y cyfryngau creadigol yn datblygu yma yng Nghymru mae'n rhaid i ni ddarparu maes arbrofi diogel i entrepreneuriaid creadigol allu meithrin a deori eu syniadau. Mae Cymru yn farchnad fasnachol llawer rhy fach i ddisgwyl i gwmnïau cyfryngau creadigol newydd gystadlu yn erbyn cwmniau newydd yn yr UDA sydd â marchnadoedd sydd 300 gwaith yn fwy na'n heconomi ni. Enghraifft dda yw Vodo, a sefydlwyd gan y gwneuthurwr ffilm ac entrepreneur creadigol Jamie King yn Abertawe. Rhwydwaith dosbarthu ffilm newydd yw Vodo sy'n anelu at ddarparu ffynonellau o refeniw i wneuthurwyr ffilm ar wahân i'r model ffilm nodwedd gyfredol. Mae'n rhoi ystyriaeth i dueddiadau defnyddwyr o ran lawrlwytho ffilmiau 'am ddim' ond mae'n canolbwyntio ar yr angen i gefnogi'r cynhyrchydd

creadigol. Mae model busnes newydd Vodo yn esblygu'n barhaus, gan symud o system o roi i system cyrchu torfol i system ddosbarthu hybrid. Gellir cyferbynnu Vodo â chronfa cynhyrchu cyfryngol yn UDA o'r enw Kickstarter. Yn sgil graddfa a phoblogaeth marchnadoedd UDA er 2009 mae Kickstarter wedi codi $95M, yn bennaf ar gyfer cynhyrchion ffilm, teledu a cherddoriaeth newydd, drwy roddion yn unig. Mae Kickstarter wedi galluogi 13,000 o gynhyrchion a gwasanaethau cyfryngau creadigol ac wedi derbyn dros 1 filiwn o addunedau. Mae gan Vodo y potensial i gyflawni graddfa debyg os yw Cymru yn penderfynu cefnogi cwmnïau cyfryngol arloesol o'r fath yn ystod eu cyfnodau datblygu a chychwynnol.

Cwmni arall sy'n gweithio gyda'r Academi Fyd-Eang drwy raglen Ysgoloriaethau Arloesi Tywysog Cymru (POWIS), yw Tornado Films sydd wedi'i leoli ym Mhort Talbot. Mae hefyd yn ceisio canfod modelau dosbarthu ffilm amgen y tu allan i'r model busnes lle mae Hollywood yn tra-arglwyddiaethu. Un o'r ffyrdd rydym ni'n ceisio eu cynorthwyo yw drwy ragor o amlygrwydd i farchnadoedd byd-eang. Yn gynnar yn 2012 byddwn yn mynd â dirprwyaeth o gwmnïau busnes cyfryngau newydd yng Nghymru, gan gynnwys Tornado Films, i Ddyffryn Silicon i geisio sicrhau cwsmeriaid newydd, buddsoddiad newydd ac i elwa ar y rhwydweithiau cyfryngau byd-eang yng Nghaliffornia. Mae cwmni POWIS arall, ML4D, yn ceisio dod â'i gynnyrch arloesol ym maes cyfryngau cymdeithasol 'Loccit' i'r farchnad yn erbyn tra-arglwyddiaeth cewri byd-eang megis Facebook. Drwy raglenni cefnogi arloesi penodol a chydweithio â grwpiau ymchwil prifysgol ar draws Cymru gobaith yr Academi Fyd-Eang yw rhoi hwb angenrheidiol i'r cwmniau hyn allu llwyddo.

Mae digon o gyfle yng Nghymru i ddyfeisio modelau busnes cyfryngau newydd ond mae'n rhaid i ni geisio darparu sail gref i'n hentrepreneuriaid cyfryngau creadigol allu adeiladu eu syniadau a'u cwmniau arni. Byddai hyrwyddo brand creadigol Cymreig cryfach yn rhyngwladol yn bendant yn help. Nesaf datblygu gwell rhaglenni cymorth busnes creadigol i raddedigion cyfryngau creadigol o Gymru i'w hannog i aros yng Nghymru a masnacheiddio eu syniadau. Yng Nghymru ceir rhai o'r cyrsiau prifysgol gorau yn y cyfryngau digidol ond yn anffodus mae'r mwyafrif llethol o raddedigion y cyrsiau hyn yn mynd i swyddi yn Llundain yn syth ar ôl graddio. Mae'n ddraen dawn y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef ar frys.

**4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi argymhellion adroddiad Hargreaves ar waith a pha gamau eraill y gellid eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru o ran cynnwys a phlwraliaeth y ddarpariaeth."**

Rwyf i'n cefnogi argymhellion Adroddiad Hargreaves yn llawn. Mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru rwyf i'n credu bod yr adroddiad wedi amlygu dau fater allweddol ar gyfer yr Adolygiad hwn. Mae'r cyfryngau yng Nghymru yn dod â budd economaidd pwysig i'r economi. Eto rhaid i'r cyfryngau yng Nghymru yn eu tro chwarae rhan yr un mor allweddol yn agweddau cymdeithasol, diwylliannol a democrataidd cymdeithas Cymru.

Mae Cymru yn gyw-ddemocratiaeth ifanc a dylid cryfhau'r cyfryngau yng Nghymru i dyfu a chefnogi dialog a thrafodaeth ddemocrataidd. Rhaid i ni sicrhau plwraliaeth o fewn ein cyfryngau gyda lefelau uwch o sylw cyfryngol gwleidyddol. Nid oes modd cyflawni hyn drwy BBC Cymru a'n ddau bapur newydd cenedlaethol yn unig. Rhaid gwarchod annibyniaeth olygyddol i S4C a dylai Llywodraeth Cymru lobïo'n galed i warchod adnoddau newyddiadurol a rhaglenni o Gymru ar ITV Wales.

Er mwyn sicrhau plwraliaeth eang yn y cyfryngau dylai Cymru hefyd annog mentrau busnes a phlatfformau newydd y tu hwnt i'n darparwyr allweddol cyfredol. Er bod hyn yn anochel yn golygu rhannu ffynonellau creu incwm ar draws rhagor o ddarparwyr cyfryngau, bydd hefyd yn gwella'r amgylchedd creadigol ac economaidd ar gyfer arloesi. Ni all Cymru fforddio bod yn rhy ddiffynnol mewn perthynas â'i sector cyfryngau cyfredol neu fe allai golli ei hawch cystadleuol.

Mae Adroddiad Hargreaves yn cynnig fframwaith cryf ar gyfer y dyfodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru beidio â chilio i sefyllfa sydd wedi'i gor-symleiddio lle caiff ein diwydiant cyfryngol ei gefnogi fel gyrrwr economaidd yn unig. Mae angen i ni fod yn glir y dylid darparu rhywfaint, os nad y cyfan o'n cynnwys cyfryngol i uchafu ein diwylliant, ein hetifeddiaeth a'n lle yn y byd. Roedd Adroddiad Hargreaves yn ceisio pontio'r rhaniad rhwng y diwydiannau creadigol a yrrwyd gan economeg a darparwyr yn canolbwyntio ar ddiwylliant eto yn ddiweddar mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru unwaith eto yn trin y ddau ar wahân. Mae llawer o gynhyrchwyr cyfryngau creadigol yn symud yn fynych rhwng y sectorau masnachol / economaidd a diwylliannol / cymorthdaledig. Mae angen i ni sicrhau nad yw polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn rhwystro cydweithio rhwng darparwyr cyfryngol oherwydd ni allwn fforddio rhaniadau ymhlith ein sector cyfryngol cymharol fregus.